*Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Stryd y Castell, Merthyr Tudful CF47 8AN*

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# HYSBYSIAD STATUDOL I GYFUNO YSGOLION CYNRADD Y GURNOS A'R GOETRE O FIS MEDI 2018

**Hysbysir gyda hyn** yn unol ag adran 42 Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013, a Chod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, ar ôl ymgynghori â'r fath bersonau yn ôl y gofyn, yn cynnig cau Ysgol Feithrin Gurnos, Ffordd Cedrwydd, Ystâd Gurnos, Merthyr Tudful CF47 9PA a chreu addasiad rheoledig i Ysgol Gynradd Goetre, Ffordd Cerddin, Ystâd Gurnos, Merthyr Tudful CF47 9PB, drwy estyn yr ystod oedran o 4-11 i 3-11. Bydd hyn yn creu ysgol cyfrwng Saesneg 3-11 gyda 413 lle ysgol gynradd ac 83 lle ysgol feithrin i fechgyn a merched. Ar hyn o bryd caiff yr ysgolion eu cynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a bydd yr ysgol gyfunedig yn parhau i gael ei chynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gyfnod ymgynghori cyn penderfynu ar gyhoeddi'r cynnig hwn. Mae'r Adroddiad Ymgynghorol, sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai, ymatebion y cynigiwr a safbwyntiau Estyn, ar gael i'w gweld ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn y cyfeiriad canlynol www.merthyr.gov.uk/council/have-your-say/consultation-on-the-proposal-to-amalgamate-gurnos-nursery-and-goetre-primary-schools-1/.

Cynigir gweithredu'r cynnig ar 1 Medi 2018.

Ymhen cyfnod o 28 dydd ar ôl y dyddiad y cafodd y cynnig ei gyhoeddi, hynny yw erbyn 18 Mehefin 2018, gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion. Dylai gwrthwynebiadau gael eu hanfon i'r Prif Swyddog (Dysgu), Adran Ddysgu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Uned 5, Pentrebach, Merthyr Tudful CF48 4TQ.

Arwyddwyd............................................ SUE WALKER, PRIF SWYDDOG (DYSGU)
Ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Dyddiedig: 21 Mai 2018

**NODYN ESBONIADOL I'R CYNIGION (ddim yn rhan o'r Hysbysiad Statudol)** Mae'r Cyngor yn cynnig cyfuno Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre o 1 Medi 2018 a chreu ysgol gynradd ag addysg barhaus o 3-11 oed wedi ei lleoli ar draws y safleoedd presennol sef Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre. Yn sgil gofynion cyfreithiol Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, cynigir bod y Cyngor yn cau Ysgol Feithrin Gurnos ac yn ehangu amrediad oedran Ysgol Gynradd Goetre. Byddai cau'r ysgol feithrin yn golygu na fyddai'n endid ar wahân mwyach. Er enghraifft, byddai darpariaeth feithrin yn parhau i gael ei darparu o'r adeilad meithrin presennol. Ni fyddai unrhyw fwlch yn addysg y plant yn sgil y cyfuno arfaethedig. Byddai gan yr ysgol gyfunedig ddosbarthiadau meithrin gyda'r capasiti ar gyfer yr un faint o leoedd llawn amser ag a ddarperir ar hyn o bryd. Byddai Ysgol Gynradd Goetre hefyd yn parhau i ddarparu 59 lle (dau ddosbarth) i bob grŵp blwyddyn, o'r derbyn tan Flwyddyn 6 gyda chyfanswm capasiti o 500 o leoedd disgyblion. Caiff ei gynnig bod dosbarthiadau Canolfan Adnoddau Dysgu gyfredol yr awdurdod lleol yn cael eu gadael ble y maent. Caiff ei gynnig fod Pennaeth Ysgol Gynradd Goetre y dyfod yn Bennaeth i'r ysgol gyfunedig a disgwylir y byddai staff o'r ysgol feithrin yn dyfod yn rhan o'r ysgol gyfunedig newydd. Gallai Corff Llywodraethu'r ysgol gyfunedig ethol i gynyddu ei aelodaeth o 13 aelod i 17 gan gynnwys aelodau Corff Llywodraethu'r ysgol feithrin.